Cymdeithas Gwenynwyr Cymru

Welsh Beekeepers' Association

Elusen Gofrestredig Rhif 509929

POLISI'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Canllaw i ymddiriedolwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr eraill ynghylch defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith CGC ac at ddefnydd personol.

Adolygir y polisi hwn yn barhaus, o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd CGC yn adolygu'r polisi hwn, yn dilyn ymgynghori, lle y bo'n briodol.

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Tachwedd 2023

Cyflwyniad

Beth yw'r cyfryngau cymdeithasol?

Y cyfryngau cymdeithasol yw'r term a roddir i adnoddau a chymwysiadau ar y we sy'n galluogi defnyddwyr i greu ac i rannu cynnwys (geiriau, delweddau a fideo), ac i rwydweithio gyda'i gilydd drwy rannu gwybodaeth, safbwyntiau, gwybodaeth a diddordebau cyffredin. Mae enghreifftiau o'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys Facebook, Twitter, LinkedIn ac Instagram.

Pam rydyn ni'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol?

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn hanfodol er mwyn llwyddo i gyfathrebu gwybodaeth am waith CGC. Mae'n bwysig i wirfoddolwyr gymryd rhan yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymgysylltu â'n cynulleidfa, cymryd rhan mewn sgyrsiau perthnasol a chodi proffil gwaith CGC.

Pam mae angen polisi'r cyfryngau cymdeithasol arnon ni?

Mae'r gwahaniaeth rhwng safbwynt personol a phroffesiynol yn gallu bod yn annelwig ar y cyfryngau cymdeithasol. Er ein bod ni'n annog defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, mae gennym safonau penodol, a nodir yn y polisi hwn, yr ydym yn gofyn i bawb gadw atynt. Mae'r un rhwymedigaethau'n gysylltiedig â chyhoeddi a gwneud sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol ag sydd ag unrhyw fath arall o gyhoeddi neu wneud sylwadau yn y parth cyhoeddus.

Mae'r polisi hwn wedi'i fwriadu ar gyfer pob *gwirfoddolwr ac ymddiriedolwr* ac mae'n berthnasol i gynnwys sydd wedi'i bostio ar ddyfais CGC ac ar ddyfais bersonol. Cyn ymgysylltu â gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â CGC, mae'n rhaid i wirfoddolwyr ddarllen y polisi hwn.

Nodi polisi'r cyfryngau cymdeithasol

Mae'r polisi hwn yn nodi canllawiau ar sut dylech chi ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gefnogi ac i hybu gwaith CGC, a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol at ddefnydd proffesiynol a phersonol. Mae'n nodi'r hyn y mae angen ichi fod yn ymwybodol ohono wrth ryngweithio yn y mannau hyn a'i fwriad yw helpu i gefnogi ac i ehangu ein sianelau cyfryngau cymdeithasol swyddogol, ac ar yr un pryd gwarchod yr elusen a'i henw da ac atal unrhyw faterion cyfreithiol.

Man cyswllt ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Ein hymddiriedolwyr a'n swyddogion sy'n gyfrifol am y gwaith cyhoeddi, monitro a rheoli ar ein sianelau cyfryngau cymdeithasol. Os oes gennych gwestiynau penodol am unrhyw agwedd ar y sianelau hyn, siaradwch ag ymddiriedolwr.

Pa sianelau cyfryngau cymdeithasol rydyn ni'n eu defnyddio?

Ar hyn o bryd mae CGC yn defnyddio:

Facebook *https://www.facebook.com/WelshBeekeepersAssociation*

Defnyddir hwn i hyrwyddo digwyddiadau ac i roi negeseuon ac eitemau o ddiddordeb i wenynwyr yng Nghymru (a thu hwnt).

Rydyn ni'n bwriadu defnyddio *Twitter, ac o bosibl Instagram yn y dyfodol (a bydd y polisi hwn yn cael ei ddiweddaru pan fydd y sianelau cyfryngau cymdeithasol hynny'n mynd yn fyw).*

Canllawiau

Defnyddio sianelau cyfryngau cymdeithasol CGC– ymddygiad priodol

1. Ymddiriedolwyr a/neu swyddogion sy'n gyfrifol am sefydlu a rheoli sianelau cyfryngau cymdeithasol CGC. Efallai bydd gweinyddwyr yn cael eu hychwanegu er mwyn cefnogi'r ymddiriedolwyr a'r swyddogion os ac fel bydd angen.
2. Gwirfoddolwyr yw pob ymddiriedolwr a swyddog a chaiff y cyfryngau cymdeithasol eu monitro mor aml ag sy'n bosibl er mwyn ymateb i sylwadau a negeseuon uniongyrchol, lle mae angen ymatebion.
3. Dylai ymddiriedolwyr, swyddogion ac unrhyw wirfoddolwyr eraill sicrhau eu bod yn adlewyrchu gwerthoedd CGC o ran beth maen nhw'n ei bostio a sut, gan ddefnyddio iaith eglur, gryno a chwrtais bob amser.
4. Sicrhewch fod holl gynnwys y cyfryngau cymdeithasol yn berthnasol i CGC a'i haelodau, a, lle y bo'n briodol, ei fod yn adlewyrchu safbwynt y mae CGC wedi cytuno arno.
5. Dewch â gwerth i aelodau ein cynulleidfa. Atebwch eu cwestiynau, helpwch nhw ac ymgysylltwch â nhw.
6. Byddwch yn ofalus wrth gyflwyno cynnwys. Sicrhewch nad oes camdeipio, camsillafu neu wallau gramadegol. Hefyd gwiriwch ansawdd y delweddau.
7. Oedwch ac ystyriwch bob amser cyn postio. Wedi dweud hynny, atebwch sylwadau mewn da bryd, pan mae hi'n briodol ichi ymateb.
8. Os ydych chi'n rhannu gwybodaeth a chynnwys (sy'n amodol ar gael caniatâd rhannu priodol), dylai'r cynnwys hwn fod wedi'i labelu'n eglur fel bod ein cynulleidfaoedd yn gwybod nad o CGC yn uniongyrchol y mae wedi dod. Os ydych chi'n defnyddio cyfweliadau, fideos neu ffotograffau lle mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei adnabod yn eglur, mae'n rhaid i ni sicrhau bod cydsyniad rhiant neu ofalwr gennym cyn eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol.
9. Gwiriwch ffeithiau bob amser. Peidiwch â thybio'n awtomatig fod deunydd yn gywir a chymerwch gamau rhesymol, lle bo angen, i geisio dilysu'r wybodaeth, er enghraifft, drwy wirio data/ystadegau a bod yn ochelgar nad yw ffotograffau wedi'u trin.
10. Byddwch yn onest. Soniwch am yr hyn rydych chi'n gwybod ei fod yn wir neu y mae gennych ffynhonnell dda ar ei gyfer. Os ydych chi wedi gwneud camgymeriad, peidiwch ag ofni cyfaddef hynny.
11. Peidiwch â chynnig safbwyntiau personol drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol CGC, naill ai'n uniongyrchol drwy roi sylwadau neu'n anuniongyrchol drwy 'hoffi', 'rhannu' neu 'ail-drydar'. Os nad ydych chi'n siŵr beth yw safbwynt CGC ar fater penodol, siaradwch ag ymddiriedolwr.
12. Mae'n hanfodol nad yw CGC yn annog eraill i beryglu eu diogelwch personol neu ddiogelwch personol pobl eraill, er mwyn casglu deunyddiau. Er enghraifft, os ydych chi'n rhannu fideo o gasglu haid, efallai bydd angen cyfeirio at gyngor/arweiniad iechyd a diogelwch perthnasol.
13. Mae'n rhaid i ni beidio ag annog pobl i dorri'r gyfraith er mwyn cael deunydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft darnau o fideo heb eu hawdurdodi. Mae'n rhaid cael pob hawl perthnasol i ddefnyddio deunydd cyn ei gyhoeddi.
14. Ni ddylid sefydlu grwpiau neu dudalennau Facebook, cyfrifon Twitter neu unrhyw sianelau cyfryngau cymdeithasol eraill ar ran CGC heb yn wybod i'r ymddiriedolwyr a heb eu mewnbwn.
15. Nid corff gwleidyddol yw CGC ac nid oes ganddo farn ar wleidyddiaeth plaid neu unrhyw gysylltiad â phleidiau gwleidyddol. Mae gennym bob hawl i fynegi barn ar bolisi, gan gynnwys polisïau pleidiau, ond ni allwn ni ddweud wrth bobl sut i bleidleisio.
16. Os gwneir cwyn ar sianelau cyfryngau cymdeithasol CGC, dylech holi am gyngor yr ymddiriedolwyr cyn ymateb.
17. Weithiau mae materion yn gallu codi ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n gallu troi'n sefyllfa o argyfwng oherwydd eu bod yn sensitif, neu bod perygl o achosi difrod difrifol i enw da'r elusen. Mae natur y cyfryngau cymdeithasol yn golygu ei bod hi'n bosibl gweld cwynion ac mae pethau'n gallu datblygu'n gyflym. Mae peidio â gweithredu'n gallu bod yn andwyol i'r elusen.

18. Mae'r ymddiriedolwyr wrthi'n gyson yn monitro mannau'r cyfryngau cymdeithasol am gyfeiriadau at CGC fel y gallwn ni roi unrhyw esboniad sydd ei angen, neu gywiro unrhyw wybodaeth anghywir, yn brydlon.

Defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol – cynnwys priodol

Nid bwriad y polisi hwn yw rhwystro defnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol ond yn hytrach mae'n tynnu sylw at y meysydd hynny lle gallai gwrthdaro godi. Mae disgwyl i wirfoddolwyr CGC ymddwyn yn briodol, ac mewn ffyrdd sy'n gyson â gwerthoedd a pholisïau CGC, ar-lein ac mewn bywyd go iawn.

1. Byddwch yn ymwybodol y gallai unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei chyhoeddi effeithio ar ganfyddiad pobl o CGC. Mae'n rhaid i chi ei gwneud hi'n eglur mai ar eich rhan eich hun rydych chi'n siarad ac nid ar ran CGC. Os ydych chi'n defnyddio eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith CGC ac i siarad amdano, mae'n rhaid ichi gynnwys ymwrthodiad fel: "Fy safbwyntiau i a fynegir ar y wefan hon a dydyn nhw ddim o angenrheidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau, polisïau neu farn CGC."
2. Dylai gwirfoddolwyr gadw unrhyw wrthdaro buddiannau posibl mewn cof wrth ddefnyddio blog neu wefan sy'n dangos bod ganddyn nhw gysylltiad â CGC.
3. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n adnabyddus yn eu maes arbenigedd fod yn arbennig o ofalus gan y gallai safbwyntiau personol a gyhoeddir gael eu camddeall fel rhai sy'n mynegi safbwynt CGC.
4. Defnyddiwch synnwyr cyffredin a barn resymol. Byddwch yn ymwybodol o'ch cysylltiad â CGC a sicrhewch fod eich proffil a'r cynnwys cysylltiedig yn cyfateb i sut rydych chi eisiau eich cyflwyno eich hun i randdeiliaid CGC ac i'r cyhoedd yn gyffredinol.
5. Os yw'r wasg yn cysylltu â chi am negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â CGC, cysylltwch ag ymddiriedolwr yn syth a pheidiwch ag ymateb yn uniongyrchol ar unrhyw gyfrif.
6. Nid corff gwleidyddol yw CGC ac nid oes ganddi farn ar wleidyddiaeth plaid neu unrhyw gysylltiad â phleidiau gwleidyddol. Wrth gynrychioli CGC, mae disgwyl i wirfoddolwyr gadw at safbwynt diduedd CGC, neu roi sylwadau ar faterion perthnasol yn unol â pholisi CGC. Mae angen i'r rhai sy'n weithgar yn wleidyddol fod yn eglur wrth wahanu eu hunaniaeth wleidyddol bersonol oddi wrth CGC, a mae'n rhaid deall ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl.
7. Peidiwch byth â defnyddio logos neu frandio CGC oni bai eich bod yn cael hawl i wneud hynny. Dylech holi am ganiatâd gan yr ymddiriedolwyr i ddefnyddio logos.
8. Diogelwch eich hun a'r elusen bob amser. Byddwch yn ofalus gyda'ch preifatrwydd ar-lein a byddwch yn ofalus wrth rannu gwybodaeth bersonol. Mae'r hyn rydych chi'n ei gyhoeddi'n hawdd cael gafael arno a bydd o gwmpas am amser hir, felly cofiwch ystyried y cynnwys yn ofalus.
9. Meddyliwch am eich enw da eich hun yn ogystal ag enw da'r elusen. Mynegwch eich safbwyntiau ac ymdriniwch yn llawn parch â gwahaniaethau barn. Peidiwch â sarhau pobl neu eu trin yn wael. Mae lle i drafodaethau a dadleuon llawn angerdd, ond dylech barchu pobl eraill a'u safbwyntiau bob amser. Byddwch yn gwrtais a sicrhewch mai chi yw'r cyntaf i gywiro eich camsyniadau eich hun.
10. Rydyn ni'n annog aelodau i rannu trydariadau a phostiadau yr ydym wedi'u cyhoeddi. Pan fyddwch chi ar-lein at ddefnydd personol, efallai y gwelwch chi gyfleoedd i wneud sylwadau am CGC neu i gefnogi'r gymdeithas a'r gwaith rydym yn ei wneud. Lle y bo'n briodol a gan ddefnyddio'r canllawiau yn y polisi hwn, rydym yn eich annog i wneud hyn gan fod hyn yn rhoi llais dynol i'r gymdeithas ac yn codi ein proffil.

Crynodeb

Mae'r cyfryngau cymdeithasol, ar bob ffurf, yn cynnig cyfle i CGC gyfathrebu â'i haelodau ac â phobl eraill yn ddigymell ac yn ddigidol. Mae'r math hwn o gyfathrebu'n gallu bod yn rhan effeithiol o amrywiaeth ehangach o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys rhai mwy traddodiadol.

Mae llawer o bobl yn gwneud mwy a mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac yn dibynnu arnyn nhw fel eu prif ffynhonnell gwybodaeth ac felly mae'n adnodd ymgysylltu pwerus.

Fel gydag unrhyw ffurf ar gyfathrebu, dylid eu defnyddio'n gwrtais a gyda synnwyr cyffredin. Mae'n debyg bod "Pe na fyddech chi eisiau cyhoeddi rhywbeth ar dudalen flaen papur newydd, yna peidiwch â'i roi ar y cyfryngau cymdeithasol" yn rheol gystal ag unrhyw un i'w dilyn!